

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## **RHEOLAU ARIANNOL**

### **1. Cyffredinol**

- 1.1.** Mae'r rheolau ariannol yn rheoli rheolaeth ariannol y Cyngor a'r Cyngor yn unig all eu newid neu eu diwygio trwy benderfyniad. Mae'r Cyngor yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau bod ei rheolaeth ariannol yn ddigonol ac effeithiol a bod gan y Cyngor system gadarn o reolaeth ariannol sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei wasanaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheolaeth risg ac atal a darganfod twyll a llygredd. Pwrpas y rheolau ariannol yw dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.
- 1.2.** Penodwyd y Clerc yn Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer y Cyngor hwn a bydd y rheolau hyn yn berthnasol yn hynny o beth. Bydd y Clerc yn gweithredu o dan arweiniad polisi'r Cyngor, yn gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn unol ag arferion priodol. Bydd y Clerc yn penderfynu ar ran y Cyngor ei gofnodion cyfrifon, a'i systemau rheolaeth gyfrifyddol. Bydd y Clerc yn gofalu y cedwir at y systemau rheolaeth gyfrifyddol ac y cedwir cofnodion cyfrifo'r Cyngor a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol yn unol ag arferion priodol.
- 1.3.** Bydd y Clerc yn cynhyrchu gwybodaeth rheolaeth ariannol yn ôl gofyn y Cyngor.
- 1.4.** O leiaf unwaith y flwyddyn cyn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol a fydd yn unol ag arferion priodol.
- 1.5.** Yn y rheolau ariannol hyn, bydd cyfeiriadau at y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio yn golygu'r Rheoliadau a gyhoeddwyd trwy adran 27 Deddf Comisiwn Archwilio 1998 ac sydd ar waith ar y pryd.
- 1.6.** Yn y rheolau ariannol hyn bydd y term 'arferion priodol' yn cyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd yn 'Governance and Accountability in local Councils in England and Wales – a Practitioners' Guide' a gyhoeddir ar y cyd gan NALC A SLCC ac sy'n cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd.

### **2. Amcangyfrifon blynyddol (Cyllideb)**

- 2.1.** Bydd pob Pwyllgor (os oes rhai) yn llunio a chyflwyno cynigion i'r Cyngor ar gyfer referniw a chyfalaf gan gynnwys y defnydd o arian wrth gefn a ffynonellau ariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, a hynny heb fod yn hwyrach na diwedd mis Tachwedd bob blwyddyn.
- 2.2.** Bydd amcangyfrifon manwl o bob derbyniad a thaliad gan gynnwys y defnydd o arian wrth gefn a phob ffynhonnell ariannu ar gyfer y flwyddyn yn cael eu paratoi bob blwyddyn gan y Clerc ar ffurf cyllideb i'w thrafod gan y Cyngor.
- 2.3.** Bydd y Cyngor yn adolygu'r gyllideb heb fod yn hwyrach na mis Ionawr bob blwyddyn a bydd yn pennu'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Bydd y Clerc yn rhoi manylion y Praesept i'w awdurdod bilio a bydd yn rhoi copi o'r gyllideb a gymeradwywyd i bob aelod.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

- 2.4. Y cyllidebau blynyddol fydd yn ffurfioli sylfaen rheolaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod
- 2.5. Bydd y Cyngor yn ystyried yr angen am ac yn rhoi sylw i ragolwg tair blynedd.
- 2.6. Dderbyniadau a Thaliadau Refeniw a Chyfalaf y gellir eu paratoi ar yr un pryd â'r Gyllideb flynyddol.

## 3. **Rheolaeth gyllidebol**

- 3.1. Gellir gwario arian ar eitemau refeniw i fyny at y symiau a gynhwyswyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb a gymeradwywyd.
- 3.2. Ni cheir gwario unrhyw arian fydd yn fwy na'r swm sydd yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant. Yn ystod y flwyddyn dan sylw a chyda chydsyniad y Cyngor ar ôl llawn ystyried y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gellir symud symiau sydd ar gael a heb eu gwario i benawdau cyllideb eraill neu i gronfa wrth gefn penodedig yn ôl y galw.
- 3.3. Bydd y Clerc yn darparu'n rheolaidd i'r Cyngor ddatganiad o dderbyniadau a thaliadau hyd hynny o dan holl benawdau'r gyllideb, gan gymharu union wariant hyd at y dyddiad dan sylw gyda'r hyn a fwriadwyd yn y gyllideb. Caiff y datganiadau hyn eu paratoi o leiaf hyd at ddiwedd pob chwarter ariannol.
- 3.4. Gall y Clerc wario arian ar ran y Cyngor sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud unrhyw waith atgyweirio neu waith arall y mae cymaint o frys yn ei gylch fel bod rhaid ei wneud yn syth, boed darpariaeth gyllidebol ar ei gyfer ai peidio, i fyny at uchafswm o £200. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y camau a gymerwyd cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.
- 3.5. Ni cheir cario arian heb ei wario yn y gyllideb refeniw ymlaen i'r flwyddyn ganlynol oni bai ei fod yn cael ei roi mewn cronfa wrth gefn benodedig trwy benderfyniad y Cyngor.
- 3.6. Ni ellir gwario unrhyw arian ar unrhyw brosiect cyfalaf ac ni ellir cytuno unrhyw gontract na derbyn unrhyw dendr ar gyfer gwariant cyfalaf oni bai fod y Cyngor yn fodlon fod yr arian angenrheidiol ar gael, neu y cafwyd y caniatâd benthyca angenrheidiol.
- 3.7. Caiff pob gwaith cyfalaf ei weinyddu yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol y Cyngor ar gyfer contractau.

## 4. **Cyfrifo ac archwilio**

- 4.1. Bydd holl weithdrefnau cyfrifo a chofnodion ariannol y Cyngor yn cael eu pennu gan y Clerc yn unol â'r Rheolau Cyfrifo ac Archwilio.
- 4.2. Bydd y Clerc yn llenwi datganiadau ariannol blynyddol y Cyngor, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Cyngor, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol wedi diwedd y flwyddyn ariannol a bydd yn eu cyflwyno ac yn rhoi gwybod i'r Cyngor y gwnaed hynny.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

- 4.3. Bydd y Clerc yn llenwi cyfrifon y Cyngor sy'n gynwysedig yn yr Adroddiad Blynyddol (fel y'i darperir gan yr Archwilydd a benodir o dro i dro gan y Comisiwn Archwilio) a bydd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'w gadarnhau a'i awdurdodi gan y Cyngor o fewn y cyfnodau amser a nodir yn y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.
- 4.4. Bydd y Clerc yn sicrhau bod system ddigonol ac effeithiol ar gyfer cynnal archwiliadau mewnol o waith cyfrifo, ariannol ac o fathau eraill y Cyngor yn unol ag arferion priodol. Bydd unrhyw un o swyddogion neu aelodau'r Cyngor, ar gais y Clerc neu'r Archwilydd Mewnol yn darparu unrhyw rai o'r dogfennau'r Cyngor y mae'r Clerc neu'r Archwilydd Mewnol yn credu sy'n angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad mewnol a byddan yn rhoi i'r Clerc neu'r Archwilydd Mewnol unrhyw wybodaeth neu esboniad y mae'r Clerc neu'r Archwilydd Mewnol yn eu hystyried yn angenrheidiol i'r perwyl hwnnw.
- 4.5. Penodir yr Archwilydd Mewnol gan y Cyngor a bydd yn cyflawni'r gwaith y gofynna'r Cyngor amdano yn unol ag arferion priodol. Bydd yr Archwilydd Mewnol, a fydd yn gymwys ac yn annibynnol ar y Cyngor, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig rheolaidd i'r Cyngor, neu'n bersonol, gydag o leiaf un adroddiad ysgrifenedig blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Er mwyn arddangos gwrthrychedd ac annibyniaeth, ni fydd gan yr Archwilydd Mewnol unrhyw fuddiannau croes ac ni fydd ganddo/ganddi unrhyw gysylltiad â gwaith penderfyniadau ariannol a rheolaeth y Cyngor.
- 4.6. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfle i archwilio cyfrifon, llyfrau a thalebau ac ar gyfer arddangos neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau a datganiadau cyfrifon sy'n ofynnol trwy Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 a'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.
- 4.7. Bydd y Clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn dwyn i sylw pob cynghorydd unrhyw ohebiaeth neu adroddiadau gan yr Archwilydd Mewnol neu Allanol, oni bai fod yr ohebiaeth yn ymwneud â mater cwbl weinyddol yn unig.

## 5. Trefniadau bancio a sieciau

- 5.1. Bydd trefniadau bancio'r Cyngor, gan gynnwys Mandad Banc, yn cael eu gwneud gan y Clerc a dylent gael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithlon.
- 5.2. Bydd rhestr o daliadau angenrheidiol, a fydd yn rhan o Raglen cyfarfod, yn cael ei pharatoi gan y Clerc ac, ynghyd â'r anfonebau angenrheidiol, ar gyfer ei chyflwyno i'r Cyngor. Os yw'r rhestr yn dderbyniol caiff ei hawdurdodi trwy benderfyniad gan y Cyngor a chaiff ei llofnodi gan Gadeirydd y cyfarfod. Os yw'n fwy addas gellir dangos y manylion yng nghofnodion y cyfarfod.
- 5.3. Bydd sieciau yn tynnu o'r cyfrif banc yn unol â'r rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff 5.2 neu yn unol â pharagraff 6.4, yn cael eu llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor sef, y Cadeirydd, IsGadeirydd ac un arall sydd wedi eu penodi.
- 5.4. Er mwyn nodi fod y manylion a ddangosir ar y siec neu archeb talu yn cyd-fynd â'r bonyn a'r anfoneb neu waith papur tebyg, bydd y clerck yn cadw copi o phob siec.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## **6. Talu cyfrifon**

- 6.1.** Gwneir pob taliad trwy siec neu archeb arall yn tynnu ar fancwyr y Cyngor.
- 6.2.** Bydd pob anfoneb am dâl yn cael ei archwilio, ei wirio a'i gadarnhau gan y Clerc. Bydd y Clerc yn bodloni ei hun y cafodd y gwaith, nwyddau neu wasanaethau y cyfeiria'r anfoneb atynt ei dderbyn, ei gyflawni, ei archwilio a'i gadarnhau.
- 6.3.** Bydd y Clerc yn archwilio anfonebau o ran cywirdeb rhifyddol a bydd yn eu dadansoddi o dan y pennawd gwariant priodol. Bydd y Clerc yn gwneud pob ymdrech i dalu pob anfoneb a gyflwynwyd saith diwrnod cyn y cyfarfod, ac sy'n dderbyniol, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
- 6.4.** Os oes angen gwneud taliad er mwyn osgoi talu llog o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, ac os yw'r dyddiad perthnasol cyn cyfarfod nesaf arferol y Cyngor, pan mae'r Clerc yn cadarnhau nad oes unrhyw anghydfod neu reswm arall i oedi taliad, gall y Clerc (er gwaethaf paragraff 6.3) gymryd yr holl gamau angenrheidiol i dalu anfonebau o'r fath ar yr amod y cyflwynir rhestr o daliadau o'r fath i gyfarfod nesaf priodol y Cyngor.
- 6.5.** Ni fydd y cyngor yn cadw unrhyw fath o gronfa arian parod. Rhaid i'r holl arian parod a dderbynnir cael ei fancio fel y mae.
- 6.6.** Os yw'r Cyngor yn credu fod hynny'n addas, gellir talu am gyflenwadau cyfleustodau (ynni, ffôn a dŵr) trwy Ddebyd Uniongyrchol amrywiol ar yr amod y caiff y cyfarwyddiadau eu llofnodi gan ddau aelod a bod unrhyw daliadau a wneir yn cael eu hadrodd i'r Cyngor. Caiff y cadarnhad i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol ei adnewyddu trwy benderfyniad gan y Cyngor o leiaf unwaith bob dwy flynedd.

## **7. Talu cyflogau**

- 7.1.** Fel cyflogydd, bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i fodloni'n llawn y gofynion statudol a roddir ar bob cyflogydd gan ddeddfwriaeth PAYE ac Yswiriant Gwladol. Caiff cyflogau eu talu yn unol â chofnodion cyflogres a rheolau PAYE ac Yswiriant Gwladol sydd ar waith ar y pryd, a'r cyflogau a gytunwyd gan y Cyngor.
- 7.2.** Gellir talu cyflogau a thalu didyniadau allan o gyflogau ar gyfer treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn yn unol â chofnodion cyflogres ac ar y dyddiadau priodol a nodir mewn contractau cyflogaeth, ar yr amod fod pob taliad yn cael ei adrodd i ac yn cael ei gadarnhau gan gyfarfod nesaf y Cyngor.

## **8. Benthyciadau A Buddsoddiadau**

- 8.1.** Caiff pob benthyciad a buddsoddi eu trafod yn enw'r Cyngor a byddant am gyfnod penodol yn unol â pholisi'r Cyngor.
- 8.2.** Bydd y Cyngor yn ystyried yr angen am Bolisi Buddsoddi a fydd, os caiff ei baratoi, yn unol â rheoliadau perthnasol, arferion priodol a chanllawiau. Caiff unrhyw Bolisi ei adolygu o leiaf yn flynyddol.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

- 8.3. Bydd unrhyw arian a fuddsoddir o dan reolaeth y Cyngor yn cael ei wneud yn enw'r Cyngor.
- 8.4. Gwneir pob benthyciad yn enw'r Cyngor, ar ôl cael unrhyw ganiatâd benthycia angenrheidiol. Caiff unrhyw gais am ganiatâd benthyciad ei gadarnhau gan y Cyngor o ran ei delerau a'i bwrpas. Bydd telerau ac amodau benthyciadau yn cael eu hadolygu o leiaf yn flynyddol.
- 8.5. Bydd pob tystysgrif a dogfennau eraill yn y cyswllt hwn yn cael eu cadw gan y Clerc.

## 9. Incwm

- 9.1. Cyfrifoldeb y Clerc fydd casglu a goruchwylio'r holl symiau sy'n daladwy i'r Cyngor.
- 9.2. Bydd manylion pob taliad a wneir ar gyfer gwaith a wnaed, gwasanaethau a ddarparwyd neu nwyddau a gyflenwyd yn cael eu cytuno'n flynyddol gan y Cyngor, caiff y Clerc wybod amdanynt ac y bydd yn gyfrifol am gasglu pob cyfrif sy'n daladwy i'r Cyngor.
- 9.3. Bydd y Cyngor yn adolygu pob ffi a thaliad bob blwyddyn, yn dilyn adroddiad y Clerc.
- 9.4. Bydd gwybodaeth am unrhyw symiau a bernir na ellir eu hadennill ac unrhyw ddyledion drwg yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor a byddant yn cael eu dileu yn ystod y flwyddyn
- 9.5. Bydd pob swm a dderbynnir ar ran y Cyngor yn cael eu bancio fel y maent. Ym mhob sefyllfa, caiff pob taliad eu cyflwyno i fancwyr y Cyngor ar yr amllder sy'n angenrheidiol ym marn y Clerc.
- 9.6. Bydd tarddiad pob derbynneb yn cael ei nodi ar y slip talu i mewn.
- 9.7. Ni chaiff sieciau personol eu talu allan o arian sy'n cael ei dalu ar ran y Cyngor.
- 9.8. Bydd y Clerc yn llenwi unrhyw Adroddiad TAW angenrheidiol yn brydlon. Gwneir unrhyw gais am ad-daliad dyladwy yn unol â Deddf TAW 1994 adran 33 o leiaf yn flynyddol i gyd-ddigwydd â diwedd y flwyddyn ariannol.
- 9.9. Pan mae'r Cyngor yn derbyn symiau sylweddol o arian parod yn rheolaidd, bydd y Clerc yn cymryd pa gamau bynnag a gytunir gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod mwy nac un person yn bresennol pan gaiff yr arian ei gyfrif am y tro cyntaf, y ceir trefn gysoni gyda rhyw fath o reolaeth fel rhifau tocynnau, ac y cymerir gofal priodol o ran diogelwch unigolion sy'n bancio arian o'r fath.

## 10. Archebion am waith, nwyddau a gwasanaethau

- 10.1. Danfonir archeb neu lythyr swyddogol ar gyfer pob gwaith, nwyddau a gwasanaethau oni bai fod contract ffurfiol yn cael ei baratoi neu pe bai archeb swyddogol yn anaddas. Cedwir copïau o archebion.
- 10.2. Caiff lyfrau archebion eu rheoli gan y Clerc
- 10.3. Mae pob aelod a swyddog yn gyfrifol am gael gwerth am arian ar bob achlysur. Bydd swyddog sy'n gwneud archeb swyddogol yn gofalu i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ac ymarferol y ceir y telerau gorau posib ar gyfer pob trafodion, fel arfer trwy gael tri

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

dyfynbris neu amcan bris neu ragor oddi wrth gyflenwyr, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau de minimis yn Rheol 11(1) isod.

- 10.4.** Bydd y Clerc yn cadarnhau natur gyfreithlon unrhyw ddarpar bryniant cyn gwneud unrhyw archeb, ac ar gyfer pryniannau neu daliadau newydd neu afreolaidd, bydd y Clerc yn gofalu yr adroddir yr awdurdod statudol i'r cyfarfod ble caiff yr archeb ei gadarnhau fel y gall y Cofnodion gofnodi'r awdurdod a ddefnyddir.

## **11. Contractau**

- 11.1.** Mae'r gweithdrefnau ar gyfer contractau fel â chanlyn:

11.1.1. Bydd pob contract yn cydymffurfio â'r Rheolau Ariannol hyn, ac ni wneir unrhyw eithriadau heblaw am mewn argyfwng ar yr amod na fydd y rheolau hyn yn berthnasol i gontractau sy'n ymwneud ag eitemau (11.1.2) i (11.1.7) isod:

11.1.2. ar gyfer cyflenwi nwy, trydan, dŵr, carthffosiaeth a gwasanaethau ffôn;

11.1.3. ar gyfer gwasanaethau arbenigol o'r math a ddarperir gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, syrfewyr ac ymgynghorwyr cynllunio;

11.1.4. ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n cynnwys atgyweiriadau i neu rannau ar gyfer peiriannau neu offer;

11.1.5. ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n ffurfio estyniad i gontract a wnaed yn barod gan y Cyngor;

11.1.6. ar gyfer gwaith archwilio ychwanegol gan yr Archwilydd allanol hyd at werth bras o £250 (os yw'r swm yn fwy na hyn bydd y Clerc yn ymgynghori â'r Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Cyngor);

11.1.7. ar gyfer nwyddau neu ddeunyddiau y bwriedir eu prynu sy'n nwyddau perchnogol a/neu os cânt eu gwerthu am bris gosod yn unig.

- 11.2.** Pan fwriedir gwneud contract mwy na £1000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn gwahodd tendrau oddi wrth o leiaf dri chwmmi i'w cymryd o'r rhestr gymeradwy briodol.

- 11.3.** Pan wneir ceisiadau i ollwng Rheolau Ariannol ar gyfer contractau er mwyn sicrhau y gellir cytuno pris heb gystadleuaeth, bydd y rheswm yn cael ei gynnwys mewn argymhelliad i'r Cyngor.

- 11.4.** Bydd unrhyw wahoddiad o'r fath i dendro yn nodi natur cyffredinol y contract arfaethedig a bydd y Clerc yn trefnu'r cymorth technegol angenrheidiol i baratoi manyleb mewn achosion perthnasol. Bydd y gwahoddiad yn nodi hefyd fod rhai cyfeirio tendrau at y Clerc trwy'r post arferol. Bydd pob cwmni tendro yn cael amlen wedi marcio'n briodol ar gyfer rhoi'r tendr ynddi wedi'i selio, a bydd yn parhau dan sêl tan y dyddiad a gytunwyd ar gyfer agor tendrau ar gyfer y contract hwnnw.

- 11.5.** Bydd pob tendr wedi'u selio yn cael eu hagor ar yr un pryd ar y dyddiad a nodwyd gan y Clerc ym mhresenoldeb o leiaf un aelod o'r Cyngor.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

- 11.6. Os derbynnir llai na thri thendr ar gyfer contractau dros £1000 neu os yw pob tendr yn cynnig yr un pris gall y Cyngor wneud pa drefniant bynnag y mae'n credu sy'n addas ar gyfer caffael y nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni'r gwaith.
- 11.7. Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £1000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn trefnu cael 3 dyfynbris (disgrifiadau wedi'u prisio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi). Fel arfer, bydd Rheol 10(3) uchod yn berthnasol.
- 11.8. Ni fydd rhaid i'r Cyngor dderbyn y tendr, dyfynbris neu amcan bris isaf nac o unrhyw fath arall.

## **12. Taliadau o dan contractau ar gyfer gwaith adeiladu**

- 12.1. Caiff y swm yn y contract ei dalu ar gyfrif o fewn y cyfnod a nodir yn y contract gan y Clerc wedi derbyn tystysgrifau ardystiedig ar gyfer y pensaer neu ymgynghorwyr eraill a gyflogwyd i oruchwylio'r contract (yn amodol ar unrhyw ganran i'w gadw'n ôl a gytunwyd yn y contract dan sylw).
- 12.2. Pan mae contractau yn darparu ar gyfer talu trwy randaliadau bydd y Clerc yn cadw cofnod o bob taliad o'r fath. Mewn unrhyw sefyllfa ble y tybir fod cyfanswm cost gwaith i'w wneud o dan gontract, ac eithrio amrywiadau a gytunwyd, yn 5% neu fwy uwchben swm y contract fe gyflwynir adroddiad i'r Cyngor.
- 12.3. Rhaid i unrhyw amrywiad i gontract neu ychwanegiad neu hepgoriad o gontract gael eu cadarnhau gan y Cyngor a'r Contractwr yn ysgrifenedig, a rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor pan mae'r gost derfynol yn debyg o fod yn uwch na'r ddarpariaeth ariannol a wnaed.

## **13. Stordai ac offer**

- 13.1. Bydd y swyddog sy'n gyfrifol am bob adran yn gyfrifol am ofalu am stordai ac offer yn yr adran honno.
- 13.2. Rhaid cael Nodiadau Cyflenwi ar gyfer yr holl nwyddau a dderbyniwyd i'w storio neu a gyflenwyd mewn unrhyw fodd arall ac mae'n rhaid gwirio nwyddau o ran yr archeb a'u hansawdd ar yr adeg y gwneir y cyflenwad.
- 13.3. Cedwir stociau ar y lefelau isaf derbyniol yn gydnaws â gofynion gweithredol.
- 13.4. Bydd y Clerc yn gyfrifol am wneud archwiliad achlysurol o stociau a storfeydd a hynny o leiaf yn flynyddol.

## **14. Asedau, adeiladau ac ystadau**

- 14.1. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau addas ar gyfer storio holl weithredoedd eiddo pob eiddo sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Bydd y Clerc yn gofalu y cedwir cofnod o bob eiddo ym mherchnogaeth y Cyngor, yn cofnodi lleoliad, maint,



# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

cynllun, cyfeirnod, manylion prynu, natur y budd, tenantiaethau a ganiatawyd, rhenti sy'n daladwy a'u pwrpas yn unol â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.

- 14.2.** Ni chaiff unrhyw eiddo ei werthu, ei lesio na'i waredu mewn unrhyw ffordd arall heb awdurdod y Cyngor, ynghyd ag unrhyw gydsyniadau eraill sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac eithrio pan nad yw gwerth unrhyw un darn o eiddo diriaethol, symudadwy yn fwy na £50.
- 14.3.** Bydd y Clerc yn gofalu y cedwir Cofrestr Asedau a Buddsoddiadau addas a manwl gywir yn gyfredol. Bydd y ffaith fod yr asedau diriaethol a ddangosir yn y Gofrestr yn dal i fodoli yn cael ei gadarnhau o leiaf yn flynyddol.

## **15. Yswiriant**

- 15.1.** Yn dilyn yr asesiad risg blynyddol (yn unol â Rheol Ariannol 17), bydd y Clerc yn trefnu pob yswiriant ac yn trafod pob hawliad gydag yswirwyr y Cyngor.
- 15.2.** Bydd y Clerc yn cadw cofnod o bob yswiriant a drefnwyd gan y Cyngor ac o'r eiddo a'r risgiau a warentir ganddo a bydd yn ei adolygu'n flynyddol.
- 15.3.** Bydd y Clerc yn cael gwybod am unrhyw golled rhwymedigaeth neu ddifrod neu am unrhyw ddigwyddiad sy'n debyg o arwain at hawliad, a bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor amdanynt yn y cyfarfod nesaf.
- 15.4.** Cynhwysir holl weithwyr priodol y Cyngor mewn yswiriant gwarantu ffyddlondeb addas fydd yn gwarantu'r perygl uchaf o risg fel y penderfynir hynny gan y Cyngor.

## **16. Elusennau**

- 16.1.** Pan mai'r Cyngor yw unig ymddiriedolydd corff elusennol bydd y Clerc yn gofalu y cedwir cyfrifon ar wahân o'r arian a gadwir mewn ymddiriedolaethau elusennol ac fe wneir adroddiadau ariannol ar wahân ar ba ffurf bynnag sy'n addas, yn unol â chyfraith elusennol a deddfwriaeth, neu yn ôl gofynion y Comisiwn Elusennol. Bydd y Clerc yn trefnu unrhyw archwiliad neu arolygiad annibynnol sy'n ofynnol gan gyfraith elusennol neu unrhyw Ddogfen Lywodraethu.

## **17. Rheolaeth risg**

- 17.1.** Wrth ystyried unrhyw weithgaredd newydd, bydd y Clerc yn paratoi drafft asesiad risg gan gynnwys cynigion rheoli risg i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cyngor.
- 17.2.** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer rheoli risg. Bydd y Clerc yn paratoi, i'w cymeradwyo gan y Cyngor, ddatganiadau rheolaeth risg ar gyfer holl weithgarwch y Cyngor. Caiff datganiadau polisi risg a'r trefniadau rheolaeth risg sy'n deillio ohonynt eu hadolygu o leiaf yn flynyddol gan y Cyngor.

## **18. Adolygu rheolau ariannol**

- 18.1.** Dyletswydd y Cyngor yw adolygu Rheolau Ariannol y Cyngor o bryd i'w gilydd. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau i fonitro newidiadau deddfwriaethol neu mewn



# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

arferion priodol a bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw angen dilynol i wneud newid i'r Rheolau Ariannol hyn.

Dyddiad adolygu a mabwysiadu: 30 Medi 2024